



Sistema Cymru - Codi'r To

Hysbyseb: Swyddog Codi Arian (rhan-amser)

Mae Sistema Cymru – Codi'r To wedi derbyn grant i benodi swyddog codi arian profiadol i gefnogi gwaith Codi'r To mewn dwy gymuned ym Mangor a Chaernarfon. Rydyn ni eisiau amrywio'r cyllid a gawn, a hynny drwy ddatblygu dulliau codi arian cymunedol ac ar-lein, rhoddion gan unigolion a chefnogaeth gorfforaethol.

Mae gennym gyllideb o £14,000 am gytundeb 8 mis.

Mae hon yn swydd hyblyg, ran amser, yn addas i unigolyn neu gwmni i ymgeisio amdani.

Mae Sistema Cymru - Codi'r To yn brosiect adfywio cymunedol wedi ei leoli ym Mangor a Chaernarfon, gyda'r nod o ddefnyddio cerddoriaeth fel ffordd o wella bywydau unigolion a chymunedau. Wedi ei ysbrydoli gan y dull El Sistema, In Harmony a'r Big Noise byd enwog, mae'r prosiect yn gweithio gydag ysgolion cynradd a chymunedau i ddarparu profiadau cerddorol a thiwtora offerynnol.

Cytundeb: 8 mis (tan ddiwedd Awst 2021 – ond gyda chyfle i drafod ymestyn y cytundeb)

Cyllideb: £14,000 sydd i gynnwys unrhyw orbenion a chostau cysylltiol.

Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch lythyr cais a chopi o'ch CV i carys@codirto.com

Neu cysylltwch â'r Cydlynnydd, Carys Bowen carys@codirto.com am fwy o wybodaeth.

Dyddiad cau: 12 o'r gloch, Dydd Gwener 13eg o Dachwedd 2020

Cronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru



Comic Relief Community Fund in Wales

Ariennir y prosiect hwn gan Gronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru a weinyddir gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru



Sistema Cymru - Codi'r To

Swyddog Codi Arian (rhan-amser)- Disgrifiad o'r Swydd

Pwrpas y swydd:

Hybu'r argymhellion sydd yng nghynllun codi arian 2020-23, gan helpu'r sefydliad i fod yn gynaliadwy drwy amrywio'r cyllid a gawn a thrwy gyflwyno dulliau codi arian yn y gymuned, rhoddion gan unigolion a phartneriaethau corfforaethol i'r cyfuniad cyllid.

Bydd y gweithgareddau'n cynnwys:

- gweithredu strategaeth i amrywio'r cyllid a gawn
- datblygu codi arian yn ddigidol
- datblygu partneriaethau corfforaethol
- datblygu rhoddion unigol
- datblygu cefnogaeth a chodi arian cymunedol
- adolygu ein dulliau marchnata a chyfathrebu

Yn atebol i: Cydlynnydd Sistema Cymru – Codi'r To

Y prif ddyletswyddau:

1. Gweithio gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Cydlynnydd, y Cyfarwyddwr Cerdd a chynghorwyr y prosiect i gytuno ar dargedau codi arian a hybu'r argymhellion sydd yng nghynllun codi arian 2020-2023.
2. Cynnal 'archwiliad iechyd' ar ddulliau codi arian
3. Gweithio gyda'r tîm i ddatblygu ymgyrchoedd a gweithgareddau codi arian digidol newydd ar draws ystod o sianeli digidol, platfformau a deunyddiau digidol.
4. Adnabod cynulleidfaoedd targed a denu dilynwyr newydd ar y cyfryngau cymdeithasol a chefnogwyr ebost.
5. Rheoli ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i sicrhau cynnwys amserol, wedi'i deilwra ar gyfer y platfformau ac sy'n annog ymgysylltu.

6. Creu cynnwys digidol ar draws cyfryngau cymdeithasol, e-bost, cylchlythyrau a thudalennau gwe.
7. Adeiladu cronfa ddata o gefnogwyr, a datblygu a gweithredu strategaeth effeithiol ar gyfer cyfathrebu a marchnata er mwyn cefnogi ac annog rhoddion gan unigolion.
8. Diweddarau, datblygu a gwneud y mwyaf o wefan Codi'r To, gan gymryd perchnogaeth dros dudalennau rhoddion unigol.
9. Ymchwilio i bartneriaid corfforaethol posibl, a datblygu cyfleoedd i gael cefnogaeth gorfforaethol.
10. Gweithio gyda Chydlynnydd y Prosiect i adolygu'r deunyddiau cyfathrebu a marchnata sydd gennym eisoes, a diweddarau'r strategaeth marchnata a chyfathrebu er mwyn ategu a chefnogi gweithgareddau codi arian.
11. Canfod cynulleidfaoedd posibl i roi cymorth, a datblygu a gweithredu syniadau ar gyfer codi arian yn y gymuned.
12. Cyffredinol
 - Cydymffurfio bob amser â pholisïau amddiffyn plant, diogelu data (GDPR), iechyd a diogelwch, a pholisïau perthnasol eraill sydd gan Codi'r To er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a'r rhwymedigaethau statudol.
 - Deall rheoliadau cyllid a'r cyfarwyddyd sydd yn y Cod Ymarfer ar gyfer Codi Arian (Code of Fundraising Practice – Fundraising Regulator)
 - Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill y gallai fod yn deg i chi eu cyflawni.
 - Cynnig egni a brwdfrydedd tuag at waith cynllunio'r sefydliad ar gyfer y dyfodol, a chynorthwyo i ganfod a datblygu ffyrdd o sicrhau cyllid ar gyfer y dyfodol.

Manylion y Person: Swyddog Codi Arian

Profiad a Sgiliau Hanfodol

- Profiad o weithio i elusen ac adnabyddiaeth o faterion codi arian i elusen.
- Wedi'i addysgu i lefel gradd neu brofiad proffesiynol cyfatebol.
- Gallu mynd ati'n hyderus i gyfleu ein prif neges ar gyfer codi arian, a mynd ati, yn ysgrifenedig ac yn bersonol, i feithrin perthynas lawn ymddiriedaeth gyda'r cefnogwyr.
- Sgiliau trefnu, a gallu cynllunio a rheoli ymgyrchoedd codi arian a digwyddiadau codi arian yn y gymuned.
- Adnabyddiaeth o'r Cod Ymarfer ar gyfer Codi Arian.

- Lefel uchel o allu mewn tasgau gweinyddol gan gynnwys prosesu geiriau safonol, Word, Excel, Microsoft Publisher. Dealltwriaeth o ddefnyddio cronfeydd data a systemau CRM i reoli data.
- Brwd dros weithio i elusen sy'n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl ifanc.
- Gallu rhoi sylw i'r manylion wrth reoli data a gwybodaeth.
- Diddordeb mewn hyrwyddo mynediad at gerddoriaeth mewn cyd-destun cymunedol.
- Trefnus iawn, brwdfrydig, aelod da o dîm; parod i weithio'n hyblyg.
- Trwydded yrru a defnyddio cerbyd gyda'r yswiriant priodol
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol.
- Sgiliau dadansoddi a rhifedd rhagorol.
- Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig a llafar rhagorol.

Dymunol

- Angen gallu trefnu a rheoli cronfa ddata o wybodaeth a chysylltiadau, a deall sut i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data mewn perthynas â GDPR a Rheoliadau Codi Arian.
- Profiad o wneud tasgau cysylltiadau cyhoeddus, a/neu o waith marchnata neu ddatblygu cynulleidfaoedd.
- Profiad o sefydlu ymgyrchoedd a gweithgaredd cynhyrchu incwm digidol mewn busnes neu elusen.
- Profiad o ddefnyddio meddalwedd golygu sylfaenol i greu cynnwys digidol sy'n weledol effeithiol.
- Profiad o ddefnyddio Salesforce, Wordpress, Action Network, Adobe Photoshop, Canva, basic HTML/CSS, Facebook business manager a golygu fideo.
- Yn gyfarwydd ag offer dadansoddi fel Google Analytics.
- Profiad o weithio fel gwirfoddolwr, a/neu o reoli gwirfoddolwyr.

Cyn penodi

- Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am eirida ar gyfer ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer.
- Bydd angen cynnal Gwiriad Manylach gyda'r DBS (y CRB gynt) cyn gallu cadarnhau unrhyw benodiad.

Anfonwch lythyr cais a chopi o'ch CV i carys@codirto.com

Neu cysylltwch â'r Cydlynnydd, Carys Bowen carys@codirto.com am fwy o wybodaeth.

Dyddiad cau: 12 o'r gloch, Dydd Gwener 13eg o Dachwedd 2020

This is a job advert for the position of a part time Funding Officer for Sistema Cymru – Codi'r To. The ability to speak and write in Welsh is essential for this post.

Ariennir y prosiect hwn gan Gronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru, a weinyddir gan Gefnogi Trydydd Sector Cymru

Cronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru



Comic Relief Community Fund in Wales
